Ysgol Dyffryn Nantlle

Cylchlythyr Tymor y GWANWYN, 2017

SPRING Term Newsletter, 2017

Delfryd Dysg Cymeriad

Eisteddfod yr Ysgol 2016

Oherwydd amseriad yr Eisteddfod eleni, ni rannwyd llwyddiannau a chanlyniadau yr Eisteddfod yng nghylchlythyr tymor yr Hydref. Ar Nos Iau, y pymthegfed o Ragfyr, cynhaliwyd Eisteddfod yr ysgol. Unwaith eto eleni roedd yn llwyddiannus iawn ac yn ddiwedd perffaith i dymor prysur. Y beirniad Cerdd oedd Mr Gethin Griffiths, Bethel a'r beirniad Llefaru a Llenyddiaeth oedd Miss Karen Owen, Pen-y-groes. Y tŷ buddugol oedd Dulyn gyda 244 o farciau, Llyfnwy yn ail gyda 213 o farciau, Silyn yn drydydd gyda 158 marc a Llifon yn bedwerydd gyda 125 o farciau.

Enillwyr Tlysau Adran y Gymraeg :

- Yr Adran Hŷn: **Tomos Moss Hughes - Llyfnwy**
- Yr Adran Iau: Hedydd Ioan – **Llyfnwy**
- Y Rhuban Glas Offerynnol yn rhoddedig gan deulu Mrs Ilid Jones: Megan Hunter – **Silyn**

Enillwyr y Tlysau / Tariannau

- Cwpan Drama Eryri i'r sgets fuddugol: **Tŷ Llifon**
- Tlws Nia, Angharad, Sharon, Nia, Derfel a Richard 1996 i'r ddeialog/ymgom orau: **Pen Dafad – Dulyn**
- Tlws Karen Owen ac Arwyn Evans i enillydd y gystadleuaeth siarad cyhoeddus: **Efa Evans – Dulyn**
- Tlws criw Dulyn i'r meim mwyaf gwreiddiol: **Tŷ Llifon**
- Tlws y Parchedig Tegid Roberts i'r cystadleuydd uchaf ei farciau o dŷ Dulyn: **Nanw Evans a Ffion Elis**
- Cwpan Erfyl Fychan i'r cystadleuydd mwyaf addawol yn yr Adran Lefaru: **Hedydd Ioan – Llyfnwy**
- Cwpan Evelyn ac Arwyn Morgan i'r canwr / gantores mwyaf addawol yn yr Adran Gerdd: **Mali Llyfni – Dulyn**
- Cwpan Angharad Wyn i'r offerynnydd mwyaf addawol: Morgan Williams - **Dulyn**
- Cwpan Hywel Roberts i'r côr buddugol: **Dulyn**

Tim Pel Rwyd

Llongyfarchiadau i dîm pêl rwyd yr ysgol a oedd yn ail yn nhwrnamaint dan 15 Gogledd Orllewin Cymru. Cafodd pob aelod o'r tîm eu gwobrwyo gyda medal. Diolch i Miss Caroline Davies, Miss Ffion Jones a Lois Crookes am eu hyfforddi.

Clwb Cynganeddu

Yn ddiweddar, sefydlwyd Clwb Cynganeddu yn yr ysgol, a gynhelir yn ystod amser cinio ar ddyddiau Mawrth ac Iau. Nod y clwb yw cynnig cyfle i unrhyw un sydd â diddordeb yn y dechneg Gymreig arbennig hon i ddysgu mwy amdani, yn ogystal â'i rhoi ar waith yn ymarferol. Tyfodd y clwb yn raddol a bu'n rhaid i Mr Siôn Elwyn Hughes, sy'n gyfrifol am y clwb, ychwanegu amser cinio arall at yr amserlen er mwyn ateb y galw cynyddol. Edrychwch ar gyfrif Twitter yr ysgol lle bydd llinellau (neu fwy!) o gynghanedd yn ymddangos yn wythnosol, ar bynciau sy'n codi yn ystod yr wythnos.

Cynllun Gwobrwyo'r Ysgol

Yn dilyn trafodaethau gyda'r cyngor ysgol, rhieni a staff, daeth yn amlwg bod pawb yn awyddus i sefydlu system glod i ganmol gwaith ac ymdrech dda disgyblion. Mae'r cynllun clod bellach wedi ei gynllunio, gyda'r cyngor ysgol, llywodraethwyr ac yna'r holl ddisgyblion wedi derbyn cyflwyniad yn esbonio'r cynllun. Fel rhan o'r cynllun clod, fe fydd elfen o gystadleuaeth ymysg disgyblion er mwyn casglu sticeri am waith ac ymdrech mewn gwersi. Yna, fe fydd yn bosibl i ddisgyblion 'wario'r' sticeri yn 'y siop' ar nifer o eitemau gwahanol gan gynnwys gwobrau bychain megis beiro, uwch-oleuwyr ac ati, neu gynilo eu sticeri er mwyn gallu prynu un o'r prif wobrau sy'n cynnwys pêl droed neu rygbi a thalebau i wario mewn siopau neu ar Itunes. Bydd y cynllun clod yn cael ei lansio'n swyddogol ar ddechrau tymor yr Haf ac edrychwn ymlaen at fesur ei effaith a'i lwyddiant.

Diwrnod Trwynau Coch

Ar Fawrth 24, gwisgodd disgyblion Ysgol Dyffryn Nantlle goch er mwyn codi arian ar gyfer elusen Comic Relief. Yn ogystal, gwerthwyd cacennau amser egwyl er mwyn codi arian ychwanegol. Llwyddodd yr ysgol i gasglu £462.01.

Eisteddfod yr Urdd

Cystadlodd nifer o ddisgyblion yr ysgol yn Eisteddfod yr Urdd yn ystod mis Mawrth. Cafwyd nifer o lwyddiannau mewn cystadlaethau unigol ac o fewn partïon.

Dyma'r canlyniadau:

- Hawys a Nanw Evans – 2il ar y ddeuawd cerdd dant
- Celyn Roberts – 3ydd ar y fonolog a llefaru unigol
- Parti merched 7-9 Ysgol Dyffryn Nantlle – 3ydd

Pob lwc hefyd i'r côr merched SA Blwyddyn 13 ac iau a fydd yn cynrychioli Eryri yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar ôl ennill yn yr Eisteddfod Sir. Diolch i Miss Melanie Cooper am eu hyfforddi a hefyd i Mr Siôn Elwyn Hughes am gefnogi'r côr trwy gyfeilio yn ystod yr holl ymarferion ac yn yr Eisteddfod.

Ffair UCAS Bl.12

Ymwelodd disgyblion blwyddyn 12 â Ffair Ucas ym Mhrifysgol Bangor yn ddiweddar. Roedd gan nifer o brifysgolion y wlad stondinau ac aelodau staff yno'n eu cynrychioli, ac roedd cyfle i'r disgyblion drafod eu cynlluniau ar gyfer eu dyfodol gyda'r prifysgolion yn ogystal â mynychu amrywiaeth o ddarlithoedd.

"Mi wnes i fwynhau'r profiad yn fawr yno. Roedd yr holl brifysgolion yn groesawgar ac yn barod i gynnig cymorth. Roedd y ddarlith meddygaeth yn fuddiol iawn i mi, yn rhoi cipolwg o fywyd myfyriwr meddygol. Mae profiadau megis y rhain yn allweddol bwysig i mi o ystyried fy mod yn rhoi cais i mewn ym mis Hydref!" **Ioan Ynyr**

Llwyddiant Tim Rygbi dan 13

Llongyfarchiadau i dîm rygbi blwyddyn 7 ac 8 a lwyddodd i gyrraedd rownd cyn-derfynol twrnament plât Gwynedd. Llwyddodd y tîm i ennill dwy gêm er mwyn cyrraedd y rownd hon, ond yn anffodus colli oedd yn hanes yn erbyn Ysgol Brynrefail a felly yn eu rhwystro rhag cyrraedd y rownd derfynol. Maent nawr yn edrych ymlaen at chwarae gêm arall fel rhan o'r twrnament a fydd yn penderfynu ai 3ydd neu 4ydd ydynt yn y twrnament. Diolch i Mr Ian Arwel Jones, Mr Dafydd Roberts ac aelodau o'r chweched sydd wedi bod yn eu hyfforddi.

Yr Adran Gerdd

Llongyfarchiadau i'r Adran Gerddoriaeth sydd wedi derbyn tystysgrif ISM efydd am ganlyniadau rhagorol y llynedd. Llwyddodd mwy na 10% o gohort blwyddyn 11 i dderbyn gradd A*-C y llynedd sy'n golygu bod yr Adran ymysg y 35 orau yng Nghymru.

Ysgoloriaethau Prifysgol

Llongyfarchiadau i Lowri Williams ar ennill ysgoloriaeth i astudio Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Abersytwyth. Llongyfarchiadau hefyd i Esyllt Hill ar ennill ysgoloriaeth i astudio Cwrs Addysg ac Elin Hughes-Jones ar ennill ysgoloriaeth i ddilyn cwrs Nyrsio ym Mhrifysgol Bangor. Dymuniadau gorau i'r tair!

http://ysgoldyffrynnantlle.org/
https://mobile.twitter.com/YDNantlle

Dyddiadau Pwysig

25 Ebrill	Diwrnod cyntaf tymor yr Haf.
25 Ebrill	Noson Rhieni Bl.8
2-12 Mai	Profion Cenedlaethol/Arholiadau Bl.7 ac 8.
9 Mai	Arholiadau TGAU yn cychwyn
12 Mai	Diwrnod Olaf Bl.12
15 Mai	Arholiadau UG/U yn cychwyn
26 Mai	Diwrnod Olaf Bl.11
10-14 Gorffennaf	Wythnos Profiad Gwaith Bl.10
6 Gorffennaf	Trip Alton Towers Bl.10

Ysgol Dyffryn Nantlle

Cylchlythyr Tymor y GWANWYN, 2017

SPRING Term Newsletter, 2017

The School Eisteddfod 2016

The timing of this year's Eisteddfod meant that the successes and results of the Eisteddfod couldn't be shared in the Autumn term newsletter. The Eisteddfod was held on the evening of Thursday the 15th of December. Once again this year, the event was a great success and a perfect end to a busy term. The Music judge was Mr Gethin Griffiths of Bethel, and the judge for Recitation and Literature was Miss Karen Owen, Penygroes. Dulyn was the victorious house with 244 marks, Llyfnwy came second with 213, Silyn took third place with 158 marks and Llifon came in fourth with 125 marks.

Welsh Department Trophy Winners:

- Seniors: **Tomos Moss Hughes – Llyfnwy**
- Juniors: Hedydd Ioan **– Llyfnwy**
- The Instrumental Blue Ribbon given by the family of Mrs Ilid Jones: Megan Hunter – **Silyn**

Trophy/Shield Winners:

- The Snowdonia Drama Cup for the winning sketch: **Tŷ Llifon**
- The Nia, Angharad, Sharon, Nia, Derfel & Richard 1996 Trophy for the best dialogue/conversation: **Pen Dafad – Dulyn**
- The Karen Owen & Arwyn Evans Trophy for the winner of the public speaking competition: **Efa Evans – Dulyn**
- The Dulyn Trophy for the most original mime: **Llifon House**
- The Revd Tegid Roberts Trophy for the competitor with the highest marks from Dulyn house: **Nanw Evans a Ffion Elis**
- The Erfyl Fychan Cup for most promising competitor in the Recitation Section: **Hedydd Ioan – Llyfnwy**
  The Evelyn & Arwyn Morgan Cup for the most promising singer in the Musical Section: **Mali Llyfni – Dulyn**
- The Angharad Wyn Cup for the most promising instrumentalist: Morgan Williams - **Dulyn**
- The Hywel Roberts Cup for the winning choir: **Dulyn**

Netball Team

Congratulations to the school netball team, which came second in the North West Wales under 15s tournament. Every member of the team was rewarded with a medal. Thank you to Miss Caroline Davies, Miss Ffion Jones and Lois Crookes for training the team.

Clwb Cynganeddu (harmonising poetry club)

The Clwb Cynganeddu is a recently established feature, and is held during lunch break on Tuesdays and Thursdays. The club's aim is to give anyone who's interested in this special Welsh strict metre technique the opportunity to come and learn more about it, as well as having a go. The club has grown gradually and Mr Siôn Elwyn Hughes, who's responsible for the club, had to add another lunch break to the timetable in order to meet the increased demand. Have a look at the school's Twitter account where some lines (or more!) of cynghanedd poetry will appear weekly, featuring topics that arise during the week.

School Reward Scheme

Following discussion with the school council, parents and school staff, it became clear that everyone was keen to establish a reward scheme to praise pupils' good work and efforts. The reward scheme has now been designed, and the school council, governors and all pupils have been given a presentation to explain it. As part of the reward scheme, there will be an element of competition among pupils to collect stickers for work and effort in lessons. Pupils will then be able to 'spend' the stickers in the 'shop', where many different items will be available, including small prizes like pens, highlighters etc. or save their stickers to buy one of the main rewards, including a football or rugby ball and vouchers to spend in shops or on iTunes. The reward scheme will begin at the start of the summer term and we look forward to measuring its impact and success.

Red Nose Day

Ysgol Dyffryn Nantlle pupils dressed in red on March 24, to raise money for the Comic Relief charity. Cakes were also sold at break time to raise more money. The school collected £462.01.

The Urdd Eisteddfod

A number of the school's pupils competed in the Eisteddfod yr Urdd in March. There were several individual and party competition successes.

Here are the results:

- Hawys and Nanw Evans – 2nd in the cerdd dant duet
- Celyn Roberts – 3rd in the monologue and individual recitation
- Female singing party Year 7–9 Ysgol Dyffryn Nantlle – 3rd

We wish the female Yr.13 and under choir the best of luck as they go on to represent Eryri in the National Urdd Eisteddfod following their victory at the County Eisteddfod. Thank you to Miss Melanie Cooper for training them and to Mr Siôn Elwyn Hughes for supporting the choir by providing the accompaniment during all the rehearsals and at the Eisteddfod.

UCAS Fair Yr.12

Year 12 pupils recently paid a visit to the UCAS Fair at Bangor University. A number of the country's universities were represented there by stalls and staff members, and pupils had the opportunity to discuss their future plans with the universities as well as a chance to attend a variety of lectures.

"I really enjoyed the experience. All the universities were welcoming and helpful. The medicine lecture was very beneficial for me, providing a glimpse of being a medical student. Experiences such as these are of vital importance to me, bearing in mind that I'll be submitting an application in October!" **Ioan Ynyr**

Success for the Rugby Under 13s

Congratulations to the Year 7 and 8 rugby team, which succeeded in reaching the semi-finals of the Gwynedd Plate tournament. The team won two games to reach this round, but unfortunately, they lost to Ysgol Brynrefail and so were prevented from reaching the final. They are now looking forward to playing another game as part of the tournament which will decide whether they take 3rd or 4th place in the tournament. Thank you to Mr Ian Arwel Jones, Mr Dafydd Roberts and members of the sixth form who have been training them.

The Music Department

Congratulations to the Music Department on receiving an ISM bronze certificate for excellent results last year. More than 10% of the year 11 cohort succeeded in gaining an A*–C last year, which means that the Department is among the best 35 in Wales.

University Scholarships

Congratulations to Lowri Williams on winning a scholarship to study Geography at Aberystwyth University. Congratulations also to Esyllt Hill on winning a scholarship to study an Education Course and to Elin Hughes-Jones on winning a scholarship to study Nursing at Bangor University. Our best wishes to all three!

http://ysgoldyffrynnantlle.org/

https://mobile.twitter.com/YDNantlle

Important Dates

25 April	First day of summer term
25 April	Yr.8 Parents' Evening
2-12 May	National Tests/Yr.7 & 8 Exams
9 May	GCSE Exams start
12 May	Last day for Yr.12
15 May	A/AS Exams start
26 May	Last day for Yr.11
10-14 July	Work Experience Week Yr.10
6 July	Alton Towers Trip Yr.10

Ysgol Dyffryn Nantlle

Cylchlythyr Tymor y GWANWYN, 2017

SPRING Term Newsletter, 2017

Delfryd Dysg Cymeriad